Strategaeth Technoleg Ddigidol 2020-2025

Strategaeth Technoleg Ddigidol

Gweledigaeth: Technoleg Yfory Heddiw

Ein gweledigaeth yw hwyluso strategaeth y brifysgol drwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dechnoleg yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol. Byddwn yn darparu gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu diogel, dibynadwy, hygyrch a dwyieithog i gefnogi addysgu a dysgu, ymchwil, profiad myfyrwyr, a holl brosesau'r brifysgol.

Rhagarweiniad

Mae Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth yn sylfaenol i anghenion gweithredol y brifysgol ac yn alluogwr strategol wrth gyflawni strategaeth, blaenoriaethau a nodau'r brifysgol i'r dyfodol.

Mae'r Gwasanaethau TG ym Mhrifysgol Bangor yn adran lwyddiannus sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr: mae'r gwasanaeth sydd ar gael yn agosáu at 100%, mae arolygon defnyddwyr yn nodi dros 90% o foddhad, mae sgoriau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr diweddaraf yn uwch ac mae'r Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth wedi cynorthwyo'r adran Neuaddau i ennill gwasanaeth “neuaddau diwifr” gorau'r Deyrnas Unedig. Mae'r llwyddiant a gafwyd wrth drosglwyddo gwasanaethau craidd megis Office 365, Panopto a Blackboard yn dangos newidiadau trawsnewidiol sy'n cyflawni ar sawl gwedd. Nod y Gwasanaethau TG yw adeiladu ar y llwyddiant hwn gyda'r bwriad o wella gwasanaethau a'r gefnogaeth a roddir yn barhaus.

Bydd y Gwasanaethau TG yn manteisio i'r eithaf ar eu strategaeth cwmwl a 'mobile first multi-channel' i sicrhau'r gwerth mwyaf o bob darn o dechnoleg. Byddwn yn defnyddio'r dechnoleg i ddod ag effeithlonrwydd i brosesau'r brifysgol ac yn addasu drwy'r amser i'r dirwedd dechnoleg sy'n newid yn gyflym i ddarparu gwasanaeth TG diogel a dibynadwy sy'n addas heddiw ac ar gyfer y dyfodol i fyfyrwyr a staff mewn ysgolion, colegau a gwasanaethau canolog. Bydd dull gweithredu cwmwl sy'n ymateb i'r galw gydag adnoddau mewnol ac allanol ynghyd â gweithio gydag endidau allanol yn galluogi Prifysgol Bangor i gyflawni'r strategaeth ac yn caniatáu iddi ymateb yn hyblyg i newidiadau yn y sector academaidd neu'r sector technoleg. Mae prifysgolion mewn cyfnod heriol iawn a bydd y rhai sy'n dewis cyflwyno profiad digidol cynhwysol a hygyrch yn ffynnu, gan adael i eraill frwydro. Bydd y Gwasanaethau TG yn cefnogi'r brifysgol i fod yn effeithlon, i wella prosesau'r brifysgol a chreu sefydliad sy'n gwbl ddigidol.

Yn olaf, bydd llywodraethu da'n allweddol i weithredu'r strategaeth yn llwyddiannus, gan sicrhau bod pob project technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a phob pecyn gwaith sylweddol yn cyd-fynd â strategaeth y brifysgol, wedi eu cymeradwyo a'u blaenoriaethu gan y grwpiau priodol, ac wedi eu seilio ar sail y gwerth y maent yn ei gynnig.

Simone Barbaresi
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth

Egwyddorion Strategol

- **Ar sail galw**: ymgynghori â myfyrwyr a staff (grwpiau tasg a rhanddeiliaid) i ddatblygu gwasanaethau newydd a/neu well. Bydd y dull gweithredu seiliedig ar alw yn sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu targedu i sicrhau'r elw mwyaf ar fuddsoddiad ac i flaenoriaethu gwelliannau. Mae alinio technoleg, pobl a chyllid yn hanfodol ar gyfer llwyddiant a bydd yn rhoi canlyniadau cadarnhaol i drawsnewid problemau traddodiadol cymhleth yn atebion digidol syml.
- **Canolbwyntio ar y cwsmer**: bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar y cwsmer; yn ddiogel, yn hygyrch, yn ddibynadwy ac yn reddfol, gan berfformio'n dda, ac ymateb i anghenion cwsmeriaid gyda strwythurau cefnogi rhagorol
- **Hygyrch**: bwriad yr holl nodau yw darparu gwasanaeth sy'n hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf posibl, beth bynnag fo'r dechnoleg neu eu gallu. Mae'r Gwasanaethau TG yn gweithio i wella hygyrchedd a defnyddioldeb gwasanaethau technoleg gwybodaeth ac wrth wneud hynny yn cadw at safonau a chanllawiau'r Deyrnas Unedig.
- **Cwmwl yn gyntaf**: parhau â dull gweithredu “cwmwl yn gyntaf” gyda golwg hirdymor i symud i strategaeth cwmwl yn unig gan ffafrio meddalwedd fel gwasanaeth, sef SaaS (Software as a Service)
- **Symudol yn gyntaf**: bydd gwasanaethau digidol yn addas i'r diben, ac yn croesawu technolegau newydd sy'n ychwanegu gwerth. Bydd gan yr holl wasanaethau, rhaglenni a systemau newydd ddull gweithredu aml-sianel "symudol yn gyntaf".
- **Dadansoddi data**: defnyddir yr ased strategol hwn i ychwanegu gwerth at brojectau gyda'r nod o alluogi'r brifysgol i ragweld ei dyfodol yn well. Mae angen golwg ddadansoddol a gyfannol ar ddata i wrthweithio'r dull ynysig a lluosog sy'n canolbwyntio ar gynnyrch sydd wedi creu gwahanol dechnolegau, safonau ac arferion ynysig.
- **Dwyieithog**: Bydd y Gwasanaethau TG yn ceisio sicrhau bod systemau a gwasanaethau sy'n wynebu cwsmeriaid ar gael yn ddwyieithog a byddant yn parhau i ddarparu cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- **Llythrennedd digidol**: cydnabyddir bod y byd cwbl ddigidol hwn yn gofyn am lythrennedd digidol i gyd-fynd â datblygiadau technolegol, ac mae angen gweithio gydag adrannau eraill yn y Brifysgol i ddarparu hyfforddiant priodol i sicrhau bod gwasanaethau newydd yn cael eu mabwysiadu mewn modd sydd mor gynhwysol â phosibl.
- **Effeithlonrwydd**: mae addysgu, ymchwil a gweinyddu i gyd yn weithgareddau craidd, a bydd golwg gyfannol ar eu hanghenion TG a'u cydgysylltiadau yn osgoi dyblygu, gorgyffwrdd ac eithriadau; bydd hyn yn gwella'r gwasanaeth i leihau costau a sicrhau manteision ariannol.
- **Gwerth**: ceisir y gwerth gorau am arian bob amser. Bydd nwyddau a gwasanaethau yn cael eu prynu trwy gytundebau fframwaith lle bo hynny'n bosibl. Bydd gwasanaethau mor gost-effeithiol â phosibl - bydd costau'n cynrychioli 'cyfanswm cost perchnogaeth', a byddant yn cael eu hadolygu'n barhaus.
- **Cynaliadwy**: sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan greiddiol o unrhyw ateb - mynd ati'n rhagweithiol i leihau'r defnydd o ynni ac ôl troed carbon gydol oes. Ailddefnyddio cydrannau meddalwedd i leihau amser datblygu.
- **Campws clyfar**: bydd y campws deallus sydd wedi'i gysylltu'n ddigidol o fudd i staff, myfyrwyr a'r amgylchedd trwy ddefnyddio'r cyfoeth o ddata gan bobl ac adeiladau i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithlon, priodol a chost-effeithiol i bawb dan sylw.
- **Gweithio gyda'n gilydd**: bydd systemau'n cael eu cyflwyno i wneud cydweithio rhwng y brifysgol a phartneriaid strategol yn haws trwy greu amgylchedd sy'n annog rhannu data yn ddiogel; bydd llifau data awtomataidd yn cael eu cyflwyno i osgoi anghysondeb data ac i hwyluso llif rhydd data a gwybodaeth briodol.

Nod 1
Cefnogi Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr

“Cefnogi ein myfyrwyr i wneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ym Mhrifysgol Bangor. Gwneud ein hamgylcheddau dysgu yn rhai o'r radd flaenaf”

- Darparu cyfleusterau hygyrch sy'n cefnogi'r addysgu rhagorol a geir ym Mhrifysgol Bangor - gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Eiddo a Champws i greu mannau y mae pobl yn mwynhau gweithio ynddynt.
- Caniatáu i fyfyrwyr ddefnyddio eu dyfeisiau symudol lle bynnag y dymunant weithio ar y campws.
- Manteisio ar ddatblygiadau newydd o ran technoleg yr ystafell ddosbarth.
- Datblygu mannau dysgu fel y gellir cael cyfleoedd dysgu cydweithredol a chymdeithasol.
- Sicrhau bod gwasanaethau ar-lein ar gael trwy gyfrwng ffonau symudol a dulliau eraill, eu bod yn hygyrch ac yn ddwyieithog.
- Parhau â sgôr TG rhagorol Bangor mewn sylwadau gan fyfyrwyr, gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr blynyddol.

Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae myfyrwyr yn disgwyl dysgu ym mhob man, nid yn y mannau addysgu traddodiadol yn unig. Bydd y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau bod hyn yn bosibl trwy barhau i ddatblygu gwasanaethau i gefnogi myfyrwyr a dysgu.

- Uwchraddio gweddill yr isadeiledd WiFi i system newydd sydd wedi ennill gwobrau. Bydd hyn yn darparu mynediad WiFi cyflym ar draws yr holl ardaloedd i fyfyrwyr, gan gynnwys yn y Neuaddau ac mewn mannau cymdeithasol a mannau dysgu. Mae'r Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth yn cydnabod y bydd myfyrwyr yn dymuno defnyddio WiFi ar gyfer amrywiaeth o raglenni gan gynnwys rhai nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'u hastudiaethau.
- Parhau i weithio gyda chydweithwyr ar draws y Brifysgol i ddatblygu a moderneiddio'r mannau dysgu, yr ystafelloedd dosbarth a'r darlithfeydd. Ymchwilio i dechnolegau newydd ar gyfer cysylltiad diwifr dyfeisiau clyweled a throsglwyddo deunyddiau clyweled dros rwydweithiau.
- Creu a datblygu mannau dysgu cymdeithasol a chydweithredol lle ceir isadeiledd priodol i gefnogi dyfeisiau myfyrwyr eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys darparu pŵer a WiFi.
- Sicrhau bod ein systemau TG/clyweledol mewn mannau addysgu yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a'u bod yn bodloni disgwyliadau staff addysgu/myfyrwyr. Cynllunio systemau rheoli cyffredin fel bod cyflwynwyr yn teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio'r dechnoleg yn unrhyw le. Ymateb yn gyflym i ddefnyddwyr sydd angen cymorth mewn sefyllfaoedd addysgu. Bod yn rhagweithiol wrth fonitro o bell ein systemau addysgu i ganfod namau cyn i'r defnyddiwr sylwi arnynt.
- Parhau i ddatblygu cefnogaeth e-asesu a dysgu ar-lein.
- Bydd myfyrwyr yn dod i gysylltiad â rhaglenni meddalwedd safonol y diwydiant ac yn cael profiad o'u defnyddio i'w cynorthwyo gyda chyfleoedd gwaith yn y dyfodol.
- Symud cynnwys Blackboard i'r 'Ultra Interface' i ddarparu amgylchedd dysgu rhithiol modern y mae modd ei ddefnyddio ar ddyfeisiau symudol.
- Gweithio'n agos gyda'r myfyrwyr i sicrhau bod ein gwasanaethau'n adlewyrchu ac yn cefnogi eu hanghenion.

Nod 2

Cefnogi Ymchwil

“Byddwn yn hwyluso'r gwaith o gryfhau safle Prifysgol Bangor fel sefydliad ymchwil ac iddo enw da”

- Bydd y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth yn parhau i ddarparu cefnogaeth safonol i bob ymchwilydd, ond byddant yn ceisio datblygu gwasanaeth mwy arbenigol sy'n gallu cefnogi ymchwilwyr sydd â gofynion technegol uwch, gan gynnwys gofynion meddalwedd a chaledwedd penodol.
- Mae Strategaeth Ymchwil, Arloesi ac Effaith y Brifysgol yn ceisio canolbwyntio ymdrechion ymchwil ar feysydd allweddol lle ceir rhagoriaeth ymchwil. Bydd y Gwasanaethau TG yn adlewyrchu'r ffocws hwn ac yn canolbwyntio ei gefnogaeth TG arbenigol ar gyfer ymchwil i'r meysydd hynny sydd yn y sefyllfa orau i gyflwyno cyhoeddiadau o ansawdd uchel, cynyddu nifer y grantiau a enillir gan gyllidwyr o'r radd flaenaf, effaith gymdeithasol ac economaidd amlwg a chanlyniadau REF llwyddiannus.
- Dylai'r ffocws hwn sicrhau bod y Gwasanaethau TG yn sicrhau'r gwerth gorau wrth gefnogi ymchwil o'i adnoddau cyfyngedig.

Beth mae hyn yn ei olygu?

Byddwn yn darparu mynediad diogel, cadarn a phriodol i lwyfannau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi ymchwil.

- Darparu cymorth cyfrifiadurol ymchwil uwch a pharhau i gynnig cymorth â Chyfrifiadura Perfformiad Uchel ym Mangor.
- Dod â'r staff ymchwil TG presennol at ei gilydd mewn un tîm, a fydd yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer y themâu ymchwil craidd a nodwyd yn y Strategaeth Ymchwil, Arloesi ac Effaith.
- Bod â'r hyblygrwydd i gefnogi newidiadau i ofynion ymchwilwyr wrth iddynt hwythau ymateb yn eu tro i ddatblygiadau yn eu meysydd ymchwil.
- Cynnig lle digonol a reolir yn dda i gadw data ymchwil, gan sicrhau bod y buddsoddi'n cyfateb i'r galw sy'n datblygu.
- Adeiladu ar lwyddiant y system wybodaeth ymchwil 'Pure' i greu gwasanaeth i hwyluso, rheoli a gweinyddu gweithgareddau ymchwil.
- Sicrhau bod ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa a myfyrwyr ôl-radd yn cael mynediad at safon uchel o gefnogaeth technoleg gwybodaeth greiddiol a mynediad at y caledwedd, y feddalwedd a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar gyfer eu hymchwil ac i ddatblygu eu sgiliau ymchwil.

Nod 3
Cefnogi Prosesau'r Brifysgol

“Cyflwyno systemau digidol sy'n cynyddu effeithlonrwydd y Brifysgol”

- Chwilio am gyfleoedd i wella prosesau y gellir eu gwella gydag atebion digidol sydd o fudd i'r brifysgol ehangach. Galluogi cydweithwyr sy'n marchnata'r brifysgol i wella'r Strategaeth Marchnata Digidol trwy fabwysiadu technoleg newydd sy'n dod i'r amlwg i wneud y gorau o'r potensial recriwtio.
- Darparu systemau technoleg gwybodaeth sy'n cyflawni'r gofynion cyfreithiol a gorfodol.
- Manteisio i'r eithaf ar y polisi 'cwmwl yn gyntaf' i ddisodli hen systemau gyda gwasanaethau cwmwl a mabwysiadu egwyddorion cynllunio ar gyfer y cwmwl wrth ddatblygu systemau yn lleol.

Beth mae hyn yn ei olygu?

Gweithio gyda'r Bwrdd Project Rhaglenni Busnes a'r Bwrdd Project Ceisiadau Myfyrwyr, ar eu newydd wedd, i nodi a blaenoriaethu projectau datblygu sydd o fudd i'r brifysgol ehangach.

- Dylid defnyddio gwaith dadansoddi data i fanteisio ar y cyfoeth o ddata myfyrwyr sydd ar gael i Brifysgol Bangor i ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth i eraill er mwyn gwella prosesau busnes a phrofiad myfyrwyr, cyfranogiad, dal gafael ar fyfyrwyr a recriwtio. Cydnabyddir y bydd angen gwella ansawdd y data mewn rhai meysydd.
- Mae systemau cofnodion myfyrwyr, systemau cyfrifeg mentrau, systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid a systemau craidd eraill yn gweld newidiadau mawr yn eu marchnad a fydd yn cynnwys darpariaeth yn y cwmwl. Bydd Prifysgol Bangor yn manteisio ar hyn i gynnig atebion sy'n seiliedig ar y cwmwl wrth i'r systemau hynny ddod ar gael.
- Drwy weithio'n agos gyda chydweithwyr mewn ysgolion, colegau, gwasanaethau canolog a phartneriaid allanol, gall Prifysgol Bangor symud tuag at ei nod o leihau defnyddio papur trwy fanteisio ar gyfleoedd i ddigideiddio ymhellach.
- Defnyddir arferion datblygu modern i sicrhau bod atebion yn y dyfodol yn cael eu darparu'n gyflym, ac y byddant yn gynaliadwy, yn cynnig ymarferoldeb safonol gyda rhesymeg prosesau symlach. Caiff prosesau safonol eu defnyddio ar draws y sefydliad, a bydd eithriadau'n cael eu hosgoi.
- Bydd gwelliant parhaus yn arwain at welliannau o ran effeithlonrwydd prosesau pwysig, megis rheoli'r cwricwlwm, cyhoeddi ar y we ac amrywiol brosesau ariannol sydd wedi eu hetifeddu.
- Dim ond pan nad oes atebion masnachol ymarferol y datblygir meddalwedd yn fewnol. Bydd meddalwedd pwrpasol yn cael ei ddylunio fel bod modd ei ddefnyddio gyda dyfeisiau symudol, yn unrhyw le, yn seiliedig ar batrymau dylunio modern ar gyfer y cwmwl. Un o nodweddion meddalwedd pwrpasol o'r fath fydd defnydd cynyddol o wasanaethau chatbot a deallusrwydd artiffisial. Bydd symud tuag at integreiddio mwy parhaus a dilyn dull datblygu mwy ystwyth yn caniatáu i ni ddiweddaru rhaglenni yn rheolaidd.
- Defnyddio'r dechnoleg argraffu ddiweddaraf i argraffu yn ôl y galw yr hyn sydd ei angen yn unig. Creu deunyddiau marchnata sydd wedi'u haddasu'n arbennig ar gyfer unigolion ac yn canolbwyntio arnynt, e.e. prosbectws personol. Bydd deunyddiau penodol yn canolbwyntio ar unigolion yn lleihau deunyddiau printiedig yn gyffredinol ond yn darparu deunyddiau perthnasol o'r ansawdd uchaf a fydd yn peri'r effaith fwyaf. Bydd lleihau ein defnydd o bapur a chemegau wrth ei gynhyrchu yn darparu gwasanaeth mwy cynaliadwy.

Nod 4
Cwmwl yn Gyntaf

"Bydd y Gwasanaethau TG yn parhau i fabwysiadu dull gweithredu cwmwl yn gyntaf"

- Bydd angen i unrhyw wasanaeth newydd gael cysylltiad i'r cwmwl.
- Bydd unrhyw waith uwchraddio mawr a wneir i wasanaeth presennol yn manteisio ar y cyfle i ddod yn wasanaeth cwmwl.
- Y gwasanaeth cwmwl a fydd yn cael ei ffafrio fydd SaaS (Software as a Service).
- Dylai Prifysgol Bangor fanteisio'n llawn ar wasanaethau cwmwl a storio mewn cwmwl i gyflawni mwy o werth.
- Bydd y nod “cwmwl yn gyntaf” yn gyson â strategaeth ystadau Prifysgol Bangor o ran cynaliadwyedd a lleihau ôl-troed y Brifysgol
- Byddwn yn cymryd y camau cyntaf tuag at strategaeth cwmwl yn unig.

Beth mae hyn yn ei olygu?
Mae gwasanaethau cwmwl yn cyfeirio at gyfleusterau technoleg gwybodaeth sy'n cael eu cynnal oddi ar y safle gan drydydd parti, a cheir mynediad atynt drwy'r rhyngrwyd. Yn aml, nid yw'r ffaith bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnal oddi ar y safle yn amlwg i'r defnyddiwr - mae system e-bost Prifysgol Bangor wedi'i lleoli ar y cwmwl ers 2013, gyda Panopto yn dilyn yn 2016 a Blackboard wedyn yn 2018.

- Dilynir y newidiadau trawsnewidiol hyn mewn technoleg cwmwl gan gyfleoedd mewn meysydd eraill fel marchnata digidol, cyllid a rheoli ystadau.
- Bydd Prifysgol Bangor yn parhau i ddilyn polisi cwmwl llywodraeth y Deyrnas Unedig a luniwyd yn 2013: “Wrth gaffael gwasanaethau newydd neu wasanaethau presennol, dylai sefydliadau sector cyhoeddus ystyried a gwerthuso atebion cwmwl posibl yn llawn cyn ystyried unrhyw opsiwn arall. Mae'r dull hwn yn orfodol i'r llywodraeth ganolog ac yn cael ei argymell yn gryf i'r sector cyhoeddus yn ehangach"
- Bydd y dull cwmwl yn galluogi defnyddwyr i gael mynediad diogel at eu data o unrhyw le ac o unrhyw ddyfais sy'n caniatáu gweithio symudol hyblyg.
- Bydd yr amgylchedd gweithio hyblyg newydd hwn yn ei gwneud yn haws byth i gydweithio a chydweithredu.
- Mae llawer o gyflenwyr meddalwedd technoleg gwybodaeth yn darparu eu cynhyrchion yn y cwmwl, a lle bo hyn yn ymarferol yn ariannol ac yn dechnegol, yna dyma'r dull cyflwyno y dylid ei ddewis.
- Un o nodau craidd y Strategaeth Ystadau yw lleihau ôl-troed ystâd Prifysgol Bangor. Bydd y Gwasanaethau TG yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Eiddo a Champws i gyflawni arbedion pellach trwy gyflwyno technoleg i annog system o weithio wrth sawl gweithfan (hotdesking), cydweithio a gweithio o bell. Bydd lleihau'r angen am nifer o ganolfannau data yn lleihau ôl-troed carbon Prifysgol Bangor, costau gwasanaeth a gofod.

Nod 5

Diogelwch digidol

“Mae'r Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth wedi ymrwymo i sicrhau bod systemau ar-lein yn cael eu diogelu, a'u bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol yn ogystal â gofynion llywodraethu'r Brifysgol”

- Sicrhau bod asedau ar-lein yn cael eu diogelu rhag mynediad iddynt heb awdurdod.
- Mae dilysrwydd yn sicrhau bod addasu asedau data yn cael ei drin mewn modd penodedig gan rai ag awdurdod.
- Mae angen i'n systemau fod ar gael i sicrhau bod gan ddefnyddwyr awdurdodedig fynediad parhaus at ein hasedau data.

Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae amddiffyn asedau digidol y brifysgol yn erbyn llygru, colli neu ryddhau data neu ymosodiad ar ddata, waeth beth fo eu lleoliad, yn hanfodol ar gyfer parhad busnes. Oherwydd eu natur, mae prifysgolion yn fannau anodd iawn i'w diogelu, ac mae'r cydbwysedd rhwng diogelwch a defnyddioldeb yn llinell i'w throedio'n ofalus er mwyn cynnal profiad boddhaol i ddefnyddwyr.

- Bydd y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth yn cynnal y cydbwysedd hwn i wella profiad defnyddwyr, gan barhau i weithio i ddiogelu'r amgylchedd digidol rhag ymosodiadau maleisus o ffynonellau mewnol ac allanol, a defnyddio technoleg i ddiogelu data.
- Os yw'n briodol, byddwn yn ceisio cael ardystiad allanol perthnasol i ffurfioli gweithdrefnau a phrosesau er mwyn dangos ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, yr arferion gorau a safonau diwydiant.
- Bydd meddalwedd a chaledwedd yn cael eu sganio am wendidau. Rhoddir sylw i unrhyw wendid critigol a nodir, a bydd unrhyw eitem nad yw'n cael ei chefnogi mwyach yn cael ei thynnu oddi ar y rhwydwaith.
- Mae troseddwyr yn gweld y sector prifysgolion yn darged hawdd ar gyfer sgamio electronig (e-bost, SMS a dyfeisiau symudol) oherwydd y miliynau o dargedau posibl. Bydd y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth yn parhau i addysgu, amddiffyn a hysbysu unigolion ynghylch gweithgarwch digidol troseddol.
- Mae'r defnydd cynyddol o'r cwmwl yn creu risgiau technoleg gwybodaeth newydd. Bydd y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth yn datblygu Fframwaith Asesu Cwmwl i Brifysgol Bangor er mwyn sicrhau bod darparwyr cwmwl yn gallu bodloni neu ragori ar yr un safonau ag y byddem wedi eu sicrhau o gael atebion mewnol ar y safle.